Arweiniad llywodraethu da

O fewn amgylchedd ariannu cynyddol gystadleuol nid oes sicrwydd o dderbyn arian y Loteri gan y Gronfa Loteri Fawr. Er bod y Gronfa Loteri Fawr yn gorff statudol, sy'n gyfrifol am arian cyhoeddus, mae'r arian y mae'n ei ddarparu yn ddewisol. Golyga hyn nad oes gan unrhyw sefydliad hawl awtomatig i dderbyn arian a rhaid i ni edrych ar allu sefydliad i drin arian cyhoeddus.

Er mwyn sicrhau fod yr arian hwn yn cael ei wario'n effeithiol ac nad yw'n cael ei gamddefnyddio rydym wedi sefydlu nifer o fesurau i sicrhau bod sefydliadau sy'n derbyn arian y Loteri wedi sefydlu trefniadau llywodraethu digonol a phriodol.

Byddwn yn talu'r un faint o sylw i allu eich sefydliad i drafod arian cyhoeddus â'r hyn yr ydym yn ei dalu i'r prosiect yr ydych chi'n gobeithio ei redeg. Byddwn yn adolygu eich ffurflen gais a threfniadau llywodraethu eich sefydliad fel y nodir cyn y byddwn yn asesu'r cynnig prosiect.

Beth ydym ni'n ei olygu wrth lywodraethu?

Mae llywodraethu'n golygu'r ffordd mae'ch sefydliad wedi'i sefydlu ac yn cael ei redeg. Mae'n ymwneud yn rhannol â gweithdrefnau, polisïau, dogfennau a threfniadau rheoli yr ydych wedi'u sefydlu ar gyfer y ffordd yr ydych chi'n gweinyddu ac yn rheoli eich sefydliad, gan gynnwys ei gyllid a chyflwyno'r hyn y mae wedi'i sefydlu i'w gyflwyno. Mae hefyd yn ymwneud â chysylltiadau eich sefydliad gyda'r budd-ddeiliaid a nodau ac amcanion eich sefydliad. Bydd y prif fudd-ddeiliaid yn cynnwys ymddiriedolwyr, pobl a grwpiau sy'n defnyddio eich gwasanaethau a gweithgareddau, cyfarwyddwyr a gweithwyr. Ymhlith y budd-ddeiliaid eraill y mae gwasanaethau proffesiynol, banciau, rheolyddion, a'r gymuned yn gyffredinol.

Pam fod llywodraethu da yn bwysig?

Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr arian anghyfyngedig. Rhaid i ni sicrhau bod ein harian yn mynd i sefydliadau a all gyflwyno prosiectau yn effeithiol i'r rhai mwyaf anghenus a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd gwirioneddol y gymuned. Er mwyn sicrhau hyn, dim ond sefydliadau a all ddangos bod ganddynt drefn lywodraethu ddigonol i gadw ein harian ar ymddiriedolaeth wrth iddynt gyflwyno'r nodau hyn y gallwn ddyfarnu arian iddynt. Yn 2006/07 fe wnaethom ddyfarnu tua £600 miliwn o arian cyhoeddus, ac mae hyn yn swm sylweddol. Serch hynny, yn ystod yr un cyfnod hwnnw derbyniodd y Gronfa Loteri Fawr ac Arian i Bawb geisiadau am grantiau sy'n gwneud cyfanswm o dros £8.5 biliwn, sy'n dangos pa mor gystadleuol yw ein rhaglenni. Am bob sefydliad yr ydym yn ei ariannu bydd tri ar ddeg o geisiadau yn aflwyddiannus. Yn anffodus, nid oes byth unrhyw sicrwydd o dderbyn arian gan y Gronfa Loteri Fawr nac Arian i Bawb; nid oes gan unrhyw sefydliad hawl awtomatig i dderbyn dyfarniad. Ni ddylech gymryd yn ganiataol ar ôl i chi dderbyn un dyfarniad y byddwch yn parhau i dderbyn dyfarniadau eraill. Ni ddylech fyth ddibynnu ar arian y Loteri i gadw'ch sefydliad i fynd. Rydym wedi ein sefydlu i ariannu cyflwyno prosiectau i'r rhai mwyaf anghenus nid y sefydliadau eu hunain.

Gyda chystadleuaeth gynyddol am arian rydym yn edrych am fwy o dystiolaeth o allu eich sefydliad i reoli arian cyhoeddus. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu dangos i ni fod gennych y strwythurau llywodraethu cadarn sy'n ofynnol i sicrhau y gall eich sefydliad reoli a chyflwyno'r prosiect yr ydych chi eisiau i ni ei ariannu yn llwyddiannus. Mae hyn yr un mor bwysig â dangos y bydd eich canlyniadau yn dod â buddion i'r rhai mwyaf anghenus. Os nad oes gennych y strwythur llywodraethu i gyflwyno'r canlyniadau, yna ni theimlir y buddion gwirioneddol.

Nid ydym yn gofyn am unrhyw drefniadau llywodraethu ychwanegol na'r hynny sydd eisoes yn ofynnol gan gyfraith Elusennau neu Gwmnïau neu'r hynny a fydd gan sefydliadau sydd wedi'u sefydlu'n dda. Os ydych chi'n sefydliad sector cyhoeddus disgwyliwn y bydd eich trefn lywodraethu a chadw cyfrifon yn unol â'r statud a'r arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y cyrff rheoleiddio perthnasol. Rydym yn ceisio sicrwydd bod gan eich sefydliad drefn lywodraethu digon cadarn er mwyn eich galluogi chi i ganolbwyntio ar gyflwyno'r hyn mae'ch sefydliad wedi'i sefydlu i'w gyflwyno, gan gynnwys y prosiect y byddwn yn ei ariannu.

Arweiniad llywodraethu da

Gan hynny rydym yn gweithredu prosesau asesu grantiau sy'n cynnwys sgrinio'r holl sefydliadau sy'n ymgeisio drwy broses dadansoddi risg.

Beth yw dadansoddi risg?

Mae dadansoddi risg yn broses sy'n digwydd pan fyddwn yn derbyn ceisiadau yn gyntaf gan sefydliad waeth beth yw ei statws, maint a lleoliad. Os yw'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n rhaid i ni edrych arnynt yn fanylach, yna bydd y cais yn profi asesiad risg pellach.

Os ydym eisoes wedi adnabod pryderon ynghylch unigolyn sy'n gysylltiedig â'ch sefydliad neu'r cais, sydd â materion heb eu datrys gyda'r Gronfa Loteri Fawr neu ei rhagflaenwyr yn y gorffennol, bydd eich cais yn cael ei anfon am asesiad risg llawn. Gallai'r unigolyn hwn fod yn llofnodwr, yn ganolwr neu â rhyw gysylltiad arall â'ch sefydliad neu'ch cais. Sylwer, mae'n bosibl y byddwn wedi ein cyfyngu gan swm y wybodaeth bersonol yn ymwneud ag unigolion y gallwn ei rhannu oherwydd y Ddeddf Diogelu Data 1998.

Beth yw asesu risg?

Os oes yn rhaid asesu risg eich cais ymhellach, yna byddwn yn gwirio'r trefniadau llywodraethu yn fanylach cyn asesu'r cais ar gyfer canlyniadau'r prosiect. Os gwelir bod y trefniadau llywodraethu yn is na'n trothwy derbyniol, bydd y cais yn cael ei wrthod heb fynd trwy'r asesiad llawn a'r rheswm a roddir yw nad yw'r cais wedi pasio ein proses dadansoddi risg.

Os yw'r cais wedi profi asesiad risg oherwydd unigolyn, a bod hanes yr unigolyn hwnnw yn ein harwain at y casgliad y byddai'n parhau'n anniogel o bosibl i ymddiried arian cyhoeddus gyda'r unigolyn hwn, bydd y cais yn methu'r asesiad risg a bydd yn cael ei wrthod.

Beth ydym ni'n ei ddisgwyl gan sefydliad?

Rydym yn argymell yn gryf bod eich sefydliad, wrth ystyried ymgeisio am unrhyw raglen y Gronfa Loteri Fawr neu Arian i Bawb, yn cymryd sylw o'r meysydd a ganlyn:

Darllenwch y pecyn ymgeisio yn fanwl

Yn gyntaf ac yn bwysicaf, dylai rheolwyr, ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr eich sefydliad ddarllen yn ofalus a deall nodiadau cyfarwyddyd, ffurflen gais a thelerau ac amodau'r grant. Cyn ymgeisio am unrhyw raglen y Gronfa Loteri Fawr neu raglen Arian i Bawb dylai'r holl unigolion perthnasol yn eich sefydliad ddeall yr hyn sy'n ofynnol ohonynt a chanlyniadau peidio â chydymffurfio gyda'r telerau a'r amodau. Os bydd eich cais am arian yn llwyddiannus, byddwch yn mynd i gytundeb sy'n rhwym yn gyfreithiol gyda'r Gronfa Loteri Fawr; gan hynny mae'n hanfodol eich bod yn deall yr hyn sy'n ofynnol.

Nid ydym yn asesu unrhyw beth yn y ffurflen gais nad ydym eisoes wedi dweud wrthych amdanynt yn y nodiadau cyfarwyddyd. Ni fydd unrhyw gwestiynau i'ch twyllo. Os byddwn yn dweud ein bod yn disgwyl bod gennych, er enghraifft, bolisi amddiffyn plant, rydym yn disgwyl bod gennych bolisi amddiffyn plant cyfredol a byddai o fewn ein hawliau i ofyn i weld y polisi hwnnw a thystiolaeth ei fod wedi'i weithredu. Mae'n hanfodol eich bod yn darllen ac yn deall yr hyn sy'n ofynnol a sicrhau eich bod yn cydymffurfio'n llawn gyda'n holl ofynion.

Llanwch y ffurflen a'r dogfennau ategol yn ofalus ac yn gywir

Sicrhewch fod yr holl wybodaeth bersonol megis enwau a chyfeiriadau wedi'u sillafu'n gywir ac yn gyson. Ni ddylech fyth ddefnyddio hylif cywiro na gwneud unrhyw ddiwygiadau ar eich ffurflen. Os byddwch yn gwneud camgymeriad wrth lanw'ch ffurflen, rhowch un llinell trwy'r camgymeriad a nodi eich llythrennau wrth y camgymeriad. Rhaid i'ch sefydliad, ac nid trydydd parti, lanw eich cais.

Cyfeiriad y sefydliad

Rhaid i chi roi cyfeiriad cofrestredig diweddaraf eich sefydliad ar eich ffurflen gais. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio cyfeiriad swyddfa eich sefydliad (os oes gennych chi un), nid cyfeiriad cartref ymddiriedolwr neu'r prif gyswllt.

Arweiniad llywodraethu da

Dogfennau Llywodraethu
Rhaid i'ch dogfennau llywodraethu fod yn gyfredol, yn gywir ac yn unol â gofynion eich corff rheoleiddio (os yn berthnasol). Dylech sicrhau eich bod yn anfon y fersiwn ddiweddaraf a chywir o'ch dogfennau llywodraethu sydd wedi'u mabwysiadu a'u llofnodi os ydych yn eu cynnwys gyda'ch cais.

Ymddiriedolwyr a thimau rheoli
Rhaid i'r wybodaeth yr ydych chi'n ei darparu ynghylch eich tîm rheoli ac ymddiriedolwyr cyfredol fod yn gyson gyda'r wybodaeth sydd wedi'i chofrestru ar hyn o bryd yn NhÐ'r Cwmnïau, Comisiwn Elusennau neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall. Byddwn yn gwirio hyn.

Eich dogfennau ategol
Byddwn yn edrych i weld a yw'ch dogfennau llywodraethu yn gyson gyda dogfennau eraill yr ydych chi'n eu cyflwyno neu y byddwn yn gofyn i'w harchwilio. Rydym yn gofyn i'r wybodaeth o fewn eich ffurflen gais, dogfennau llywodraethu a dogfennau ategol eraill (megis cyfrifon) fod yn gyson â'i gilydd.

Datganiadau banc
Rhaid i enw a chyfeiriad y sefydliad fod yn gyson gyda chyfeiriad cofrestredig eich dogfennau llywodraethu a ffurflen gais. Os dyfernir grant y Gronfa Loteri Fawr i chi mae'n debyg y byddwn yn gofyn i chi neilltuo unrhyw arian y dyfernir i chi mewn cyfrif banc ar wahân er mwyn rhoi cyfrif amdano.

Os byddwn yn gwneud dyfarniad, mae'n bosibl y byddwn yn eich ariannu cyn i chi wneud unrhyw wariant ar y prosiect. Cedwir yr arian hwn gan eich sefydliad at ddiben cyflwyno eich prosiect a rhaid peidio â'i ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Dylai'r holl unigolion perthnasol ddeall eu cyfrifoldebau dros gadw a gwario'r arian hwn, gyda chyfrifon wedi'u harchwilio'n glir, er mwyn cyflwyno'r prosiect y cytunwyd i'w ariannu.

Achrediadau
Dylech sicrhau fod gan yr holl weithwyr proffesiynol, megis cyfrifwyr, cyfreithwyr neu benseiri, y byddwch yn eu cyflogi'r achrediad a'r cofrestriadau cywir a diweddar. Byddwn yn gwirio hyn. Gan ein bod yn dyfarnu arian cyhoeddus, rhaid i ni sicrhau bod gan y gweithwyr proffesiynol yr ydych chi'n eu cyflogi'r cymwysterau cywir a phriodol ar gyfer y swydd y gofynnir iddynt ei gwneud. Rydym yn gwerthfawrogi y gall hyn gostio mwy o arian weithiau, ond credwn fod hyn yn arian sy'n werth ei wario. Nid yw'r arfer da arbed arian trwy ddefnyddio 'gweithwyr proffesiynol' nad ydynt â'r cymwysterau cywir. Bydd gwiriad syml gyda'r awdurdod perthnasol yn dweud wrthych chi pa un a oes gan y gweithiwr proffesiynol yr achrediadau y maent yn honni sydd ganddynt.

Polisïau a gweithdrefnau
Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau ffurfiol eich sefydliad fod yn gyfredol, yn ystyrlon ac wedi'u gorfodi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bolisïau a gweithdrefnau yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed disgwyliwn fod gan weithwyr prosiect, sydd â chyswllt uniongyrchol gydag unrhyw un o'r grwpiau agored i niwed hyn, gliriad uwch y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Rhaid i'ch polisïau fod yn berthnasol, yn gywir, yn gyfredol a rhaid eu gweithredu.

Llofnodwyr
Rhaid i chi sicrhau fod y bobl gywir o fewn eich sefydliad yn llofnodi'r ffurflenni a'r dogfennau llywodraethu. Os yw enw ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr yn newid rhaid i chi sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am y newid wrth y cyrff rheoleiddio priodol a'i gofnodi ar eich dogfennau llywodraethu. Os yw ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr yn cael ei adnabod wrth enw neu enwau eraill fel arfer, yna dim ond yr enw cofrestredig y dylid ei ddefnyddio ar yr holl ffurflenni cais a dogfennau monitro.

Canolwyr
Rhaid i'ch canolwr fod yn briodol ar gyfer y prosiect yr ydych chi'n ymgeisio am arian ar ei gyfer. Rydym yn cynnig rhestr o ganolwyr derbyniol a disgwyliwn i chi geisio cymeradwyaeth gan rywun o un o'r categorïau hyn. Dylai sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda gael cysylltiadau ag aelodau priodol o'r gymuned a all weithredu fel canolwr ar eich rhan. Mae'n arfer da cael gwahanol ganolwyr ar gyfer gwahanol brosiectau.

Beth ddylwn i wneud os oes gennyf gwestiynau pellach?

Ni all y Gronfa Loteri Fawr gynnig cyngor uniongyrchol ar sut i lanw eich ffurflen gais, gan nad ydym yn asiantaeth ddatblygu. Dylech gysylltu â'ch Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu swyddogion cyswllt yn eich Awdurdod Lleol os oes arnoch angen cyngor ar lanw'r ffurflenni cais.

Os dymunwch gyngor ar ba raglen a allai fod yn fwyaf priodol i chi ymgeisio amdanynt, dylech gysylltu â llinell gymorth y Gronfa Loteri Fawr ar 0845 4 10 20 30.

Sylwadau neu gwestiynau pellach ar y ddogfen hon
Dylid cyfeirio cwestiynau yn ymwneud â llywodraethu da at Bennaeth Llywodraethu Corfforaethol y Gronfa Loteri Fawr:

E-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Ffôn: 020 7211 3736

Ffacs: 020 7211 3749

Post: 1 Plough Place
London
EC4A 1DE.